# Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli

**29 Mawrth 2011**

**Adroddiad yr Uned Morwrol a Pharciau Gwledig**

## 1 – Ffioedd a Thaliadau

**1.1** Cymeradwywyd ffioedd a thaliadau blwyddyn ariannol nesaf Hafan, Pwllheli, gan yr Arweinydd Portffolio a'r Swyddogion Statudol. Cyflwynwyd y ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â harbwr allanol Pwllheli a'r harbwrs a reolir gan Gyngor Gwynedd i'r Swyddogion Statudol a'r Arweinydd Portffolio i'w cymeradwyo. Er mwyn sicrhau bod ein cleientiaid yn ymwybodol o'r ffioedd sydd ar ddod, mae'r Uned Morwrol a Pharciau Gwledig eisoes wedi cyflwyno copi o'r ffioedd a thaliadau drafft i'r holl gleientiaid a'r dyddiad cau ar gyfer dychwelyd y ffurflenni cais am angorfeydd yng nghyswllt yr harbwr allanol oedd 25 Chwefror 2011. Hysbyswyd cleientiaid gydag angorfeydd pontŵn bod angen iddynt gadarnhau eu bod eisiau angorfa bontŵn ddechrau mis Ionawr.

**1.2** Yn atodedig, ceir copi o'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer Hafan ac ar gyfer angorfeydd harbwr allanol Pwllheli ynghyd â'r ffioedd ar gyfer harbwr Porthmadog i'w cymharu. Annogir aelodau i nodi yr argymhellir na ddylir codi'r ffioedd yn 2011 ar gyfer y rhai hynny sy'n byw'n barhaol yng Ngwynedd yng nghyswllt angorfeydd yn harbwr allanol Pwllheli tra argymhellir y dylid codi'r ffioedd a'r taliadau 1% ar gyfer y rhai hynny sy'n byw y tu allan i Wynedd, sy'n is na'r raddfa chwyddiant ragdybiedig.

Dyma'r ail flwyddyn yn olynol nad yw'r ffioedd ar gyfer trigolion lleol gydag angorfeydd yn yr harbwr allanol wedi cael eu codi a rhagwelir y bydd cynnal ffioedd ar lefel resymol yn annog morwyr i barhau i ddefnyddio harbwr Pwllheli ar gyfer eu gweithgareddau morwrol.

Cymeradwywyd y ffioedd a'r taliadau am wasanaeth yn Hafan Pwllheli ac mae'r Arweinydd Portffolio a'r Swyddogion Statudol wedi cefnogi'r argymhelliad y dylid codi ffioedd Hafan Pwllheli **1%** yn 2011/12 ac mae'r cynnydd hwn hefyd yn is na'r raddfa chwyddiant ragdybiedig. Yn anffodus, bydd y cynnydd i **20%** mewn TAW o 4 Ionawr 2011 ymlaen yn peri cynnydd pellach mewn costau i'r holl ddefnyddwyr ond ni fydd hyn yn cyfrannu tuag at gyfanswm yr incwm a gynhyrchir yn yr harbwr.

**1.3** Rhagwelir graddfa chwyddiant negyddol o **-0.13%** ar gyfer harbwr allanol Pwllheli a graddfa chwyddiant o **1.90%** yn Hafan Pwllheli. Targed cyfanswm incwm harbwr allanol Pwllheli ar gyfer 2011/12 fydd **£118,130** gyda tharged cyfanswm incwm Hafan yn **£1,592,300**.

Y cynnydd yn nharged cyfanswm incwm yr Uned Forwrol ar gyfer 2011/12 yw **£57,330,** sy'n arwyddocaol, ac yn cymharu gyda chynnydd targed o **£9,070** yn 2010/11 a **£51,020** yn 2009/10. Mae hyn yn cynyddu targed cyfanswm incwm yr Uned Forwrol i **£2,219,360** yn 2011/12.

Bydd aelodau'n ymwybodol y llwyddwyd i gyrraedd y targed incwm yn Hafan Pwllheli a'r harbwrs allanol yn flaenorol, gan ei ragori ar brydiau. Yn anffodus, yn 2010/11, rhagwelir y bydd diffyg bychan yng nghyfanswm yr incwm. O ystyried na ellir rhagweld amgylchiadau economaidd byd-eang, bydd yn rhaid i'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig drwyddi draw gymryd camau i sicrhau y cyrhaeddir targedau cyfanswm gwariant a chyfanswm incwm heb gyfaddawdu safon y gwasanaeth i'n cleientiaid.

**1.4** Mae ffioedd a thaliadau cofrestru Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol hefyd wedi codi ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Pery'r ffioedd lansio yr un fath, yn union fel y bu dros yr unarddeg mlynedd diwethaf. Atodwyd gopi o ffioedd a thaliadau lansio a chofrestru Cychod Pŵer.

## *2 -* <u>Cyllidebau</u>

*2.1* Atodwyd gopi o fanylion ariannol incwm a gwariant Hafan Pwllheli, yr harbwr allanol a'r traethau'n gyffredinol o 31 Rhagfyr 2010. Bydd yr aelodau'n nodi mai **£118,280** yw targed incwm harbwr Pwllheli ar gyfer 2010/11 a bod cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd hyd at ddiwedd Rhagfyr 2010 wedi cyrraedd **£104,348,** sy'n gadael diffyg o **£13,932** sydd fymryn yn uwch o gymharu â diffyg o **£11,698** yn 2009/10.

Nis rhagwelir y bydd swm arwyddocaol o incwm yn cael ei gynhyrchu yn ystod mis Mawrth, a disgwylir felly na fydd yr incwm yn cyrraedd y targed yn y flwyddyn ariannol hon.

*2.2* Bydd yr aelodau'n nodi mai **£1,562,630** yw targed incwm harbwr Pwllheli ar gyfer **2010/11** a bod cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd hyd at ddiwedd Rhagfyr 2010 wedi cyrraedd **£1,485,007,** o gymharu â chynhyrchiant incwm o **£1,503,451** yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Y diffyg incwm yn Hafan Pwllheli ar 31 Rhagfyr 2010 yw **£77,623**, o gymharu â £49,298 yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Rhagwelir na fydd incwm Hafan Pwllheli yn cyrraedd y targed yn llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Rhagwelir y bydd diffyg o £20,000.

*2.3* Mae'r ffi sydd yn berthnasol ar gyfer prydles angorfeydd pontŵn yn seiliedig ar incwm gros Hafan Pwllheli. Ers peth amser mae'r taliad sydd yn ddyledus i Gomisiynwyr Stad Y Goron yn seiliedig ar 10% o'r incwm gros gydag incwm tanwydd wedi ei eithrio o'r cyfanswm. Roedd y ffi a dalwyd i Gomisiynwyr Stad Y Goron yn 200/11 yn 145K, ac mae hyn yn swm sylweddol. Nid yw'r ffi yn cynnwys costau prydles blaendraeth ac angorion cychod yr Harbwr Allanol neu brydles blaendraeth cyffredinol traethau Gwynedd. Gan fod 145K yn swm sylweddol, mawr obeithir bydd yna drafodaeth yn cael eu cynnal gydag asiant lleol Stad Y Goron yn y dyfodol agos gyda'r bwriad trafod y cytundeb cyfredol er mawr obeithio lleihau'r swm uchel sydd yn daladwy.

*2.4* Fel y bydd yr aelodau'n nodi, mae'r gwariant hyd yn hyn yn fwy na'r gyllideb dan nifer o benawdau yn yr harbwr allanol ac yn Hafan Pwllheli ac mae hyn yn peri cryn bryder gan y rhagwelir y bydd gwariant ychwanegol yn ystod mis Mawrth. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, bydd yr incwm ychwanegol a gynhyrchwyd yn cael ei ddyrannu i benawdau penodol er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn ei chrynswth yn cyrraedd y targed angenrheidiol. Bydd yr aelodau'n nodi'r cynnydd arwyddocaol yng nghost trydan o gymharu â chostau trydan yn 2007/08. Bydd cyfanswm y gwariant dan bennawd cyllideb trydan yn cael ei ostwng o ganlyniad i'r ffaith y cyrhaeddwyd y targed yng nghyswllt yr incwm dan bennawd cyllideb trydan.

*2.5* O ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol, bydd **2011/12** yn flwyddyn heriol i'r Uned Forwrol ac yn enwedig i harbwrs Gwynedd. Pwysleisir y bydd yn rhaid goresgyn unrhyw or-wariant ac unrhyw ddiffyg mewn incwm, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd ariannol gyfredol sy'n wynebu'r Awdurdod.

## 3 <u>Mordwyo/Angorfeydd</u>

*3.1* Mae'r holl cymhorthion mordwyo sy'n arwain at harbwr Pwllheli wedi parhau yn eu hunfan dros fisoedd y gaeaf.

Tra fo mwyafrif cymhorthion mordwyo harbwr Pwllheli wedi eu gosod ar y mur hyfforddi, pery dau gymhorthydd mordwyo i arnofio, sef bwi y sianel fordwyo a marc y porth yn y sianel ddynesu a ddynodir ar siartiau mordwyo. Pery tri bwi starboard dros dro yn eu lle, a gosodwyd un bwi gerllaw swyddfa'r Harbwr Feistr er mwyn cyfeirio traffig i dde'r rhwystr a bery yn y rhan hon o'r sianel.

***3.2*** Pery tri cymhorthydd porth ar gyfer mordwyo yn eu lle ger mynedfa’r harbwr er mwyn cyfeirio traffig i ffwrdd o’r dŵr bâs a berir gan y clawdd tywod sydd wedi datblygu ym mynedfa’r harbwr dros fisoedd y gaeaf.

Mae’r Uned Forwrol wedi gwella ansawdd y marcwyr mordwyo ym mynedfa’r harbwr a gosodwyd tri bwi porth mwy ynghyd â llusernau mordwyo yn y man mwyaf ffafriol wrth fynedfa’r harbwr. Ail ddynodwyd y postyn porth sefydlog a goleufa gorlif brys yr arllwysfa garthion mewn storm yn ‘farciau arbennig’ (melyn) ac mae’r Uned Forwrol yn y broses o wneud cais i Dŷ’r Drindod am awdurdod i addasu nodweddion y marciau yn barhaol a hefyd i rybuddio’r morwr o'r tri cymhorthydd mordwyo ychwanegol sydd ym mynedfa'r harbwr.

Rhagwelir y bydd yn rhaid cadw’r tri bwi marcio porth wrth fynedfa'r harbwr yn barhaus gan na ellir rhagweld symudiad deunydd yn y rhan hon. Er mwyn ymdrin â’r broblem gyfredol, bydd cytundeb byr yn cael ei hysbysebu a bydd y gwaith yn dechrau cyn Gŵyl y Pasg er mwyn tynnu gymaint â phosib o ddeunydd o fynedfa’r harbwr gan felly gynyddu lled mynedfa'r sianel. Rhagwelir y bydd dyfnder y dŵr yn y rhan hon yn gostwng ar ôl cwblhau’r gwaith.

Bydd y gwaith yn cael ei wneud gan ddefnyddio peiriannau sydd wedi’u lleoli ar y tir a bydd y deunydd a garthir yn cael ei storio ar y safle stoc-bentyrru presennol. Mae’n bwysig pwysleisio bod y llain o dir sydd ar gael ar gyfer storio deunyddiau gerllaw mynedfa'r harbwr wedi lleihau'n sylweddol ond rhagwelir bod digon o le ar gael ar gyfer y gwaith sydd ar fin digwydd.

***3.3*** Er bod gwaith carthu wedi cael ei wneud ym masn y marina a’r sianel ddynesu yn ystod y cyfnod rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2010. ymddengys bod rhagor o ddeunydd wedi gwaddodi yn y sianel gyferbyn â swyddfa’r harbwr ac mewn rhai rhannau o fasn y marina yn ystod misoedd y gaeaf. Mae’r rhan o dan y pontŵn tanwydd yn peri pryder a bydd angen rhoi sylw i hyn yn fuan, fuan iawn. Fel nodir uchod, mae mynedfa’r harbwr wedi culhau, sy’n golygu bod yn rhaid i bob llong fordwyo’n ofalus, yn enwedig wrth ddynesu at longau eraill yn y rhan hon.

Mae graddfa’r llanw, yn enwedig yn ystod dwy awr a hanner gyntaf y trai yn arbennig o gryf wrth fynedfa’r harbwr ac yn ystod y cyfnod hwn, bydd y llanw’n mynd i gyfeiriad y mur hyfforddi. Cynghorir llongau i fordwyo’n ofalus iawn yn y rhan hon o’r harbwr nes y cwblheir y gwaith wrth y fynedfa.

Yn ystod gwyliau'r Pasg, bydd yr Harbwr Feistr, ac aelodau eraill o’r Uned Forwrol yn absenoldeb yr Harbwr Feistr, yn patrolio’r rhan hon er mwyn hysbysu morwyr o'r sefyllfa.

Bydd copi o’r arolwg hydrograffig mwyaf diweddar a wnaethpwyd ym mis Medi 2010 ar gael er gwybodaeth i’r aelodau yn y cyfarfod.

***3.4*** Mae’n ofynnol bod yr holl fwiau marcio parth y traeth tymhorol a’r bwiau marcio cyfyngiadau cyflymder, a osodir fel arfer gerllaw mynedfa’r harbwr mewnol, yn eu lle cyn 1 Mai 2010.

***3.5*** Mae holl angorfeydd yr harbwr wrthi’n cael eu harchwilio a’u cynnal a’u cadw er mwyn sicrhau y gall y llongau fod yn ddiogel yn yr harbwr yn ystod y tymor hwylio nesaf. Bydd adroddiad manwl ynghylch cyflwr yr angorfeydd ac ar y gwaith a wnaed ar bob angorfa yn cael ei ddosbarthu yn y cyfarfod gan y Swyddog Morwrol.

Bydd gwaith archwilio a chynnal a chadw'r angorfeydd yn cael ei wneud unwaith eto gan GW Marine, cwmni plymio arbenigol a bydd cyfanswm cost archwilio a chynnal a chadw'r angorfeydd ym Mhwllheli yn **£1,850**, yn union yr un fath a'r gost yn 2010.

## 4 - Digwyddiadau

*4.1* Rydym yn falch o adrodd bod gŵyl boblogaidd 'Wakestock' yn dychwelyd i fasn gogleddol harbwr Pwllheli o 6 Gorffennaf hyd 9 Gorffennaf 2011. Mae'r trefnwyr wedi gofyn am awdurdod a fyddai'n caniatáu i'r ŵyl ddechrau gydag amserlen hyfforddi ddydd Mercher, a'r cystadlu'n digwydd ddydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn. Mae digwyddiad tebyg wedi cael ei bennu i ddigwydd ar draeth Abersoch ddydd Sul 10 Gorffennaf. Nid yw'r Uned Morwrol wedi derbyn unrhyw wrthwynebiad i drefnwyr y digwyddiad ymestyn cyfnod y digwyddiad.

*4.2* Rydym yn falch iawn o adrodd wrth yr aelodau y bydd Gŵyl boblogaidd Bwyd Llŷn yn cael ei chynnal ym Mhenrhyn Glandon ar 28 a 29 Mai 2011, sy'n digwydd bod yn Ŵyl y Banc a chyfnod gwyliau hanner tymor yr ysgol. Rhagwelir felly y bydd yr wyl yn hynod boblogaidd.

*4.3* Mae Hafan Pwllheli, unwaith eto, wedi ennill y '*Five Anchors Award*' a'r Wobr Baner Las Ryngwladol. Mae'r gwobrau hyn yn profi fod cyfleuster o'r safon orau posib ar gael i forwyr yma yng Ngwynedd. Mae traeth Marian y De hefyd wedi ennill Gwobr Baner Las Rhyngwladol yn 2011, ac mae traeth Glan Don wedi ennill Gwobr Arfordir Glas.

*4.4* Yn 2015, bydd Cyfarwyddeb Ewropeaidd Dyfroedd Ymdrochi yn dod i rym a bydd ateb y meini prawf llym a bennir gan y Gyfarwyddeb yn her. Mae safon dyfrodedd ymdrochi Pwllheli wedi bod yn gyson iawn dros y bum mlynedd ddiwethaf a disgwylir y byddant yn derbyn safon 'Rhagorol' dan y Gyfarwyddeb newydd yn 2015.

Bydd pedwar dosbarth o ddyfroedd ymdrochi dan y gyfarwyddeb newydd, sef:

- Rhagorol
- Da
- Digonol
- Gwael

Nodir yr amserlen ar gyfer y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi ddiwygiedig isod.

**2011**: Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyhoeddi proffil i bob dŵr ymdrochi yng Nghymru a Lloegr.

**2012**: Rhaid i arwyddion priodol fod yn eu lle ger yr holl ddyfroedd ymdrochi erbyn dechrau'r tymor ymdrochi. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn dechrau ar y gwaith monitro gan ddefnyddio paramedrau'r Gyfarwyddeb ddiwygiedig.

**2014**: Adroddiad Dyfroedd Ymdrochi Terfynol yn defnyddio safonau'r Gyfarwyddeb bresennol.

**2015:** Set gyntaf o ddosbarthiadau yn defnyddio'r paramedrau newydd yn cael eu cyhoeddi ar y set data a ddechreuwyd yn 2012.

**2016**: Bydd dosbarthiadau newydd yn ymddangos ar yr arwyddion gan ddefnyddio symbolau sy'n cael eu paratoi gan y CE.

## 5 - Staff

Hysbysebwyd swydd Cymhorthydd Harbwr Porthmadog a Phwllheli ar gyfer y tymor nesaf a bydd y swydd yn dechrau ar 7 Ebrill gan ymestyn hyd 30 Medi 2011. Hefyd, mae swydd Cymhorthydd Harbwr Abermaw ac Aberdyfi wedi cael ei hysbysebu a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn cael ei gyflogi o 7 Ebrill hyd 30 Medi. Arferai'r ddwy swydd ddiwethaf fod yn swyddi amser llawn ond fe'u cwtogwyd dros dro i swyddi chwe mis.

*5.2* Bydd nifer o swyddogion traeth yn cael eu cyflogi yn ystod tymor yr haf i reoli traeth baner las Marian y De a byddant yn dechrau ar eu dyletswyddau ar 19 Mehefin. Bydd Cynorthwy-ydd Pontŵn Tanwydd yn cael ei gyflogi yn Hafan Pwllheli ar gyfer tymor yr haf.

## *6 -* Rhestr Aros Angorfa Pontŵn Hafan

Yn ystod rhan gyntaf 2011, bu gostyngiad yn nifer y darpar gleientiaid sydd ar restr aros Hafan. Fel nodir yn yr atodiad, bydd yr aelodau'n ymwybodol mai 149 yw'r ffigwr bellach o unigolion sydd wedi cofrestru eu diddordeb mewn angorfa gyda'r Cyngor (o gymharu â chyfanswm o 202 a oedd wedi cofrestru yn ystod yr un cyfnod yn 2010. Er mwyn sicrhau bod y rhestr aros yn adlewyrchu'r sefyllfa mor gywir â phosib, tynnwyd unigolion y gwrthodwyd angorfa iddynt fwy nag unwaith oddi ar y rhestr ac fe'u cynghorwyd i ail ymgeisio os ydynt wir angen angorfa.

*6.2* Mae aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn yn flaenorol i'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig ystyried cynyddu cost cofrestru enw ar y rhestr aros o £50.00 fel y mae ar hyn o bryd, i swm uwch o £100.00. Mabwysiadwyd hyn bellach a bydd y ffi newydd yn gymwys o 1 Ebrill 2011. Caiff y blaendal rhestr aros ei ad-dalu a bydd hefyd yn cael ei gymryd fel rhan o'r taliad pan rhoir angorfa i'r ymgeisydd.

Gofynnodd Aelodau (PMBHA) am fanylion pellach, sef:

*O'r nifer o bobl ar y rhestr aros yn ystod y deuddeg mis diwethaf, faint ohonynt sydd wedi gwrthod y cynnig am angorfa:*

- 6m – 3 chais – pob un wedi derbyn
- 8m – 2 gais – un wedi derbyn ac un wedi gwrthod
- 10m – 7 cais – dau wedi derbyn a phump wedi gwrthod
- 12m – 2 gais – pob un wedi gwrthod
- 13.5m – 1 cais – 1 wedi gwrthod
- 15m – 1 cais – un wedi derbyn

*O'r nifer o bobl ar y rhestr aros yn ystod y deuddeg mis diwethaf, faint ohonynt sydd heb gael cynnig angorfa barhaol:*

- Mae pawb ar y rhestr aros wedi cael cynnig angorfa.

*Beth yw'r cyfnod aros a roddir i ymholwyr lleol ac i ymholwyr nad ydynt yn lleol pan fyddant yn holi am angorfa:*

- Mae'n gwbl bosib y bydd angorfa ar gael i bawb sydd eisiau angorfa yn 2011.

**Gwifren Donfyrddio**

***7.0*** Mae'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig wedi derbyn cais yn ddiweddar gan berchennog Ysgol Hyfforddiant Tonfyrddio Pwllheli ynghylch y posibilrwydd o osod gwifren tonfyrddio ar hyd rhan o harbwr allanol Pwllheli.

Mae'r cais yn cynnwys gosod dau dŵr cymharol fyr ar bob pen i'r ardal hyfforddi, un gerllaw pen safle'r hen ynys (sy'n safle datblygu posib) a'r ail dŵr gerllaw mynedfa'r morlyn llonyddu. Byddai gwifren ddur yn cysylltu'r ddau dŵr.

Bydd y system arfaethedig yn cael ei phŵeru gan eneradur symudol. Mae'r cebl dwbl yn ddi-dor a gall y sawl sy'n ei ddefnyddio fynd o un pen i'r llall unwaith y bydd wedi cyrraedd y naill ben neu'r llall. Ceir rhagor o fanylion ynghylch y cais a gellir dehongli'r cysyniad o'r diagramau yn yr atodiad.

***7.1*** Hysbyswyd yr ymgeisydd y bydd y mater yn cael ei ddwyn gerbron Pwyllgor Ymgynghorol yr Harbwr gyntaf oll, ac y gofynnir am farn y Pwyllgor cyn rhoi unrhyw arweiniad ynghylch datblygu'r cysyniad ymhellach. Hysbyswyd yr ymgeisydd hefyd y bydd angen rhagor o ymgynghori statudol. Byddai'n rhaid ymgynghori â'r canlynol yn ogystal â Phwyllgor Ymgynghorol yr Harbwr, petai cefnogaeth i'r cais: Unedau Cynllunio, Gwarchod yr Arfordir a Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, RNLI (Pwllheli) a Thŷ'r Drindod. Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr a gellid ychwanegu ati neu dynnu enwau oddi arni.

***7.2*** Ac eithrio'r llwyfan glanio, nid yw'r tyrrau o dan y marc dŵr uchel cymedrig ac ni fyddant yn peri perygl wrth fordwyo. Fodd bynnag, bydd y cebl sy'n cysylltu'r ddau dŵr yn croesi dyfroedd yr harbwr. Er nad oes llongau wedi eu hangori yn y rhan hon ar hyn o bryd, bydd yn rhaid ystyried yn ofalus y posibilrwydd o long gyda mast yn taro'r cebl wrth fordwyo yn y rhan hon o harbwr Pwllheli. Nis rhagwelir y bydd hyn yn effeithio ar longau sydd wedi eu hangori gerllaw'r datblygiad arfaethedig.

***7.3*** Gallai sefydlu 'Canolfan Hyffoddi Tonfyrddio' yn harbwr Pwllheli fod yn atyniad ychwanegol, ond bydd angen ystyried ymhellach y ffaith bod cebl yn croesi rhan o ddyfroedd yr harbwr a'r risgiau sy'n gysylltiedig â pherygl posib fel hynny.